



Mae ExpedFest Cymru yn ôl, dydd Gwener 17 – dydd Sul 19 Chwefror 2023

Digwyddiad Hyfforddi Sgiliau Alltaith DofE Cymru ar gyfer
Arweinwyr DofE Cymru.



Ar ôl seibiant o dair blynedd,
braf yw cyhoeddi bod
ExpedFest yn cael ei gynnal
unwaith eto!

Cefndir

ExpedFest yw ein digwyddiad hyfforddi blynyddol, lle mae arweinwyr o bob cwr o Gymru'n dod ynghyd i ddysgu sgiliau alltaith ac awyr agored newydd (os ydych newydd ymuno â'r DofE) neu i ymgymryd â'r cwrs Aseiad neu Hyfforddiant Arweinydd Iseldir.

Bydd y digwyddiad wedi'i leoli yng nghanol harddwch Parc Cenedlaethol Eryri, yng Nghanolfan Fynydd Genedlaethol Plas-y-Brenin. Mae costau llety, bwyd a hyfforddiant wedi'u cynnwys yng nghost y penwythnos, sydd wedi'i noddi diolch i'n harianwyr a'n cefnogwyr hael.

Mae ExpedFest yn gyfle gwych i rwydweithio a rhannu syniadau gyda dysgwyr a rheolwyr DofE eraill o'r un anian â chi, o bob cwr o Gymru.

Mae'r digwyddiad yn dechrau am 6pm dydd Gwener 17 Chwefror, gyda phryd gyda'r nos a chyfle i rwydweithio, a bydd cyrsiau'n dechrau am 9am y diwrnod canlynol.

Cyfleoedd Hyfforddi

P'un a ydych newydd ymuno â DofE, neu'n Arweinydd DofE ers peth amser, dewiswch o blith y cyfleoedd hyfforddi gwych sydd ar gael;

Allteithiau ar gyfer Aelodau DofE Newydd

Wedi'i gynllunio ar gyfer unigolion sy'n newydd i'r adran alltaith, nad oes ganddynt lawer o brofiad o'r awyr agored. Bwriad y cwrs rhagarweiniol hwn yw datblygu eich sgiliau a magu eich hyder yn yr awyr agored, gan gynnwys sgiliau mordwyo personol, diogelwch ar y mynydd, cyflwyniad i offer a chyfarpar arweinydd, a chreffft gwersylla, gyda'r nod o'ch rhoi ar ben ffordd er mwyn ymgymryd â chwrs Hyfforddiant Arweinydd Iseldir yn y dyfodol, wrth ichi weithio at ddod yn gymwys i arwain grwpiau yn yr awyr agored.

Nid oes rhagofynion ar gyfer y cwrs hwn, fodd bynnag, dylech fod â diddordeb mewn arwain cyfranogwyr ar Allteithiau DofE yn y dyfodol er mwyn gwneud y mwyaf o'r sgiliau y byddwch yn eu dysgu.



Hyfforddiant Arweinydd Iseldir

Os oes gennych chi brofiad eisoes o'r awyr agored, gallwch fynychu cwrs Hyfforddiant Arweinydd Iseldir. Yn aml, mae'r Cymhwyster Corff Llywodraethu Cenedlaethol (NGB) hwn yn ofynnol fel man cychwyn y cymhwyster arweinyddiaeth sylfaenol er mwyn galluogi arweinwyr i arwain grwpiau o bobl yn yr awyr agored.

- Rhaid ichi fod yn o leiaf 17 oed i fynychu'r cwrs hwn.
- Dylech fod â diddordeb mewn arwain grwpiau ar Iseldir gwledig.
- Rhaid ichi gofrestru ar y cynllun gyda [Mountain Training Cymru](#). (£49 yn daladwy i Mountain Training).
- Rhaid ichi fod wedi cofnodi o leiaf 10 taith gerdded amrywiol ar Iseldir..

Asesiad Arweinydd Iseldir

A ydych chi eisoes wedi cwblhau eich Hyfforddiant Arweinydd Iseldir? Y cam nesaf yw eich Asesiad Arweinydd Iseldir, lle fyddwch yn cael eich asesu ar y sgiliau rydych wedi'u dysgu yn ystod eich hyfforddiant a'ch cyfnod atgyfnerthu.

- Rhaid ichi fod yn o leiaf 18 oed.
- Rhaid ichi fod wedi mynychu cwrs Hyfforddiant Arweinydd Iseldir yn flaenorol.
- Rhaid i chi fod yn gyfarwydd â'r [maes llafur](#).
- Rhaid ichi fod wedi cofnodi o leiaf 20 taith gerdded ar iseldir gwledig.
- Rhaid ichi fod wedi mynychu cwrs cymorth cyntaf 16awr cyn ymgymryd â'r asesiad.

➔ Mae rhagor o wybodaeth am y Dyfarniad Arweinydd Iseldir, a'r holl adnoddau, ar gael [yma](#).

Bwyd a Llety

Mae costau llety, brecwast, cinio, prydau gyda'r nos a lluniaeth a chacen yn y prynhawn, wedi'u cynnwys yn y ffi i gymryd rhan yn y digwyddiad hwn. Mae llety'n cynnwys amrywiaeth o ystafelloedd en-suite a rennir. Os ydych yn mynychu ExpedFest gyda chydweithiwr neu rywun rydych chi'n ei adnabod, gallwch wneud cais i rannu ystafell yn y ffurflen gais. Bydd eich holl ofynion dietegol yn cael eu bodloni, a bydd gwybodaeth am hyn yn cael ei chasglu cyn y digwyddiad.

Cost

Mae cost yr hyfforddiant wedi'i noddi'n hael diolch i gefnogwyr ariannol DofE Cymru. Mae'r gwir gost y pen yn fwy na £270. Diolch i gefnogaeth ein harianwyr, rydym yn codi **£70 y pen yn unig ar gyfer y penwythnos hyfforddi, a gallwch dalu'r ffi eich hun, neu gall eich sefydliad dalu ar eich rhan.**

Nifer cyfyngedig o leoedd sydd ar gael, felly gwnewch gais cyn gynted â phosibl er mwyn osgoi cael eich siomi.

Gwnewch Gais Nawr!

Dim ond y person sy'n mynychu'r ExpedFest ddylai gwblhau'r ffurflen.

Dysgu Ar-lein

A oes angen rhagor o wybodaeth arnoch chi i ddeall DofE yn iawn? A ydych chi'n awyddus i ddod yn Asesydd Alltaith DofE? Byddwn yn cynnal ein cyrsiau hyfforddi rhithiol yn ystod y cyfnod cyn ExpedFest, gan gynnwys y cwrs hyfforddi Cyflwyniad i DofE (IttDofE), a fydd yn rhoi sylfaen gadarn i gyfranogwyr o wybodaeth am DofE, er mwyn dechrau ar y Wobr.

Byddwn hefyd yn cynnal Cwrs Hyfforddiant Asesywr a Goruchwyliwr Alltaith (EASTC) sy'n rhoi'r wybodaeth i gyfranogwyr allu goruchwyllo ac asesu Allteithiau DofE. Gallwch sicrhau eich lle ar y cyrsiau hyn [yma](#). Siaradwch â'ch Swyddogion Gweithrediadau i weld a oes cyllid ar gael i gefnogi costau cwrs hyfforddiant rhithiol ar gyfer staff eich sefydliad.

Teithio

Byddwn yn annog cyfranogwyr i ystyried rhannu lifft er mwyn lleihau costau ar gyfer pob cyfranogwr, ac er mwyn lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd hefyd. Os ydych chi'n fodlon trafod opsiynau rhannu lifft ag arweinwyr DofE lleol eraill sydd hefyd yn teithio i ExpedFest o'ch ardal chi, rhowch wybod i ni yn y ffurflen gais, a byddwn yn rhannu eich cyfeiriad e-bost gydag eraill er mwyn ichi allu trefnu hyn yn uniongyrchol.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda eich Swyddog Gweithrediadau Cymru DofE. wales@dofe.org neu ffoniwch 01874 623086.

[DofE.org](#)

